COFNOD O BENDERFYNIADAU CYFARFOD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU DYDDIEDIG DYDD IAU 9 CHWEFROR 2023, AM 10:00 O'R GLOCH

Yn bresennol:

**Y Cynghorwyr:**

RM Granville (Cadeirydd), J Pratt, H Bennett, D Harrison, R Williams, M Williams, H Griffiths, M Hughes, W Kendall, D Hughes, N Clarke, R Collins, C Davies, MJ Kearn, AR Berrow, S Easterbrook a S Griffiths.

**Swyddogion:**

R Jones, MA Galvin, P Thomas, J Parsons, R Davies, C Flower, R Morgan, J Jenkins, M Pitman and L Tuck.

49. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorydd M John

50. Datganiadau o fuddiannau

Y Cynghorydd R Williams – buddiant rhagfarnus yn eitem 8 ar yr Agenda, gan ei fod yn adnabod nifer o'r gwrthwynebwyr i'r cais.
Aeth allan o'r cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

51. Archwiliadau Safle

Pennu dydd Mercher 22 Mawrth 2023 fel dyddiad ar gyfer archwiliadau safle arfaethedig yn codi yn y cyfarfod, neu fyddai'n cael eu nodi gan y Cadeirydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

52. Siaradwyr cyhoeddus

Nid oedd siaradwyr cyhoeddus yn siarad yn y cyfarfod heddiw.

53. Taflen Newidiadau

Nid oedd Taflen Newidiadau ar gyfer y cyfarfod heddiw.

54. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

Nodwyd yr adroddiad oedd yn amlinellu eitem Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

55. P/21/118/OUT – Tir ym Minffrwd Close, Pencoed, CF35 6SE

Adeiladu 4 tŷ ar wahân gan gynnwys mannau allanol a pharcio

PENDERFYNWYD: Bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i ddarparu cyfraniad ariannol o £4,156 ar ddechrau'r datblygiad tuag at ddarparu/uwchraddio man chwarae i blant a chyfleusterau chwaraeon awyr agored yng nghyffiniau safle'r cais a bod Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau yn cael pwerau dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad yn rhoi caniatâd Amlinellol mewn perthynas â'r cynnig hwn unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106 uchod gyda'r amodau a gynhwysir yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, yn ogystal ag amodau arferol Materion a Gadwyd yn ôl.

56. Newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 yng Nghymru i greu Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc.) (Diwygio) (Cymru) 2022

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad, y newidiadau i'r ddau Offeryn Statudol (gweler Atodiad 1) a Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru.

57. Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol – Y Sgwrs Fawr

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

58. Cofnod Hyfforddiant

Nodi adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau yn amlinellu'r sesiynau hyfforddi sydd i ddod ar bynciau allweddol yn ymwneud â Chynllunio a Datblygu, gan ychwanegu ymhellach bod cyflwyniad gan Dŵr Cymru i gael ei ychwanegu at y rhestr o fentrau hyfforddi.